Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

# Hysbysiad Preifatrwydd

## Adran Profiad y Claf

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych beth i'w ddisgwyl pan fydd eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu gan **Dîm Profiad y Claf.** Gallwch gysylltu â ni yn:


Adran Profiad y Claf
Llawr Daear Uchaf
Bloc C
Ysbyty Athrofaol Cymru
Parc y Mynydd Bychan
Caerdydd
CF14 4XW

Rhif ffôn: 029 21845692
E-bost: Pe.civica.cav@wales.nhs.uk


**Pam y gallwn ni brosesu eich gwybodaeth?**

Mae gennym hawl gyfreithiol i brosesu eich gwybodaeth bersonol ar gyfer Arolygon Cleifion o dan Erthygl 6.1(e) o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK-GDPR) gan fod y prosesu yn angenrheidiol er mwyn i ni gyflawni ein swyddogaethau swyddogol fel corff y GIG.

**At ba ddiben yr ydym yn prosesu eich gwybodaeth?**

Rydym yn cael eich gwybodaeth drwy arolygon Cenedlaethol, arolygon Cymru Gyfan ac arolygon pwrpasol. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu a'i phrosesu i nodi meysydd i'w gwella ac i wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd.

**Am ba hyd y byddwn ni'n ei storio?**

Ni fyddwn yn storio gwybodaeth bersonol am gyfnod hirach nag sy'n ofynnol. Bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei gwneud yn ddienw pan nad oes ei hangen mwyach mewn fformat adnabyddadwy. Bydd yn cael ei storio yn unol â chanllawiau cadw'r GIG a dim ond cyhyd ag sydd ei hangen i gyflawni ei diben. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei storio yn ein platfform adborth CIVICA.

**Gyda phwy fyddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth?**

Bydd y fformat adborth gwreiddiol yn cael ei rannu â rhanddeiliaid mewnol a staff perthnasol y Bwrdd Iechyd. Bydd unrhyw wybodaeth a rennir gyda rhanddeiliaid allanol (e.e. Llywodraeth Cymru, CHC's) yn ddienw a bydd unrhyw wybodaeth adnabyddadwy yn cael ei dileu, os yn bosibl.

**Sut alla i gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data?**

Mae manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data wedi'u hamlinellu isod:

| | |
|---|---|
| Enw: | Swyddog Diogelu Data |
| Cyfeiriad: | Tŷ Coetir, Caerdydd |
| E-bost: | UHB.DPO@wales.nhs.uk |

**Beth yw eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol?**

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych hawliau y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt. Mae'r hawliau sydd ar gael i chi yn dibynnu ar ein rheswm dros brosesu eich gwybodaeth.

- Yr hawl i gael gwybod (h.y. yr hysbysiad preifatrwydd hwn)
- Yr hawl i gael mynediad (h.y. cael gafael ar eich gwybodaeth eich hun)
- Yr hawl i gywiro (h.y. newid unrhyw wallau)
- Yr hawl i ddileu (h.y. os oes gwall ffeithiol, dylid ei ddiwygio)
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu (h.y. cyfyngu ar y defnydd o'u data tra bod ymchwiliad yn digwydd)

- Yr hawl i wrthwynebu prosesu (mewn rhai amgylchiadau h.y. os yw'n anghywir yn ffeithiol)

Os hoffech gael mynediad at eich gwybodaeth glinigol eich hun, cysylltwch â'r Adran Cofnodion Iechyd drwy CAV.AccessToRecords@Wales.NHS.UK neu ffoniwch 02920 746500

Os hoffech weld prif hysbysiad preifatrwydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ewch i'r dudalen we: Prif hysbysiad preifatrwydd

Nid yw'n ofynnol i chi dalu unrhyw dâl am arfer eich hawliau. Mae gennym fis i ymateb i chi. Mae gennych hefyd yr hawl i gyflwyno cwyn i awdurdod goruchwylio os ydych yn anfodlon â sut mae eich data yn cael ei brosesu. Yn y DU, yr awdurdod goruchwylio yw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y mae ei manylion cyswllt wedi'u darparu isod:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Llinell gymorth: 0303 123 1113

Sgwrs fyw ar-lein: https://cy.ico.org.uk/make-a-complaint/

Mae canllawiau pellach ar sut i arfer eich hawliau ar gael ar wefan yr ICO yn: https://cy.ico.org.uk/for-the-public/